Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddBusiness@Assembly.wales

5 Gorffennaf 2019

Annwyl Llŷr,

Ysgrifennaf atoch yn rhinwedd eich rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr amserlen ar gyfer Cyllideb 2020-21.

Yn unol â Rheol Sefydlog 20, rwyf wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes i nodi'r dyddiadau y bydd y gyllideb ddrafft yn cael ei gosod ac y bydd cynnig y gyllideb flynyddol yn cael ei gyflwyno. Eleni, er hynny, rydym yn wynebu lefel ddigyffelyb o ansicrwydd ynghylch bwriadau Llywodraeth y DU ar gyfer Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Ni wyddom eto pryd y bydd yn digwydd nac â pha gyfnod y bydd yn ymdrin. Cafwyd sylwadau yn ystod y dyddiau diwethaf gan yr ymgeiswyr ar gyfer arwain y Blaid Geidwadol ac, yn y pen draw, Brif Weinidog y DU, ynghylch y posibilrwydd y bydd Llywodraeth newydd y DU'n cyhoeddi ei chyllideb ym mis Medi. Am y rhesymau hyn, mae'n anodd rhoi sicrwydd ar hyn o bryd ynghylch pa ddyddiadau y byddwn yn cyhoeddi cyllidebau drafft a therfynol 2020-21.

Mae Rheol Sefydlog 20.6, er hynny'n darparu i'r Pwyllgor wneud newidiadau i'r amserlen ar gais y Llywodraeth. Yn ddarostyngedig i hyn, ac ar y ddealltwriaeth y byddaf yn darparu amserlen gadarn cyn gynted â phosibl ar ôl i Lywodraeth y DU wneud cyhoeddiad ynghylch yr adolygiad o wariant a'i Chyllideb, rwyf wedi dweud wrth y Pwyllgor Busnes ein bod yn bwriadu cyhoeddi'r cyllidebau drafft amlinellol a manwl gyda'i gilydd ar 10 Rhagfyr, a'r Gyllideb Derfynol ar 3 Mawrth 2020.

Wrth gynnig y dyddiadau hyn rwyf yn ymwybodol o Reol Sefydlog 20.5 a'r trefniadau y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch y cyfnod a ddarperir ar gyfer craffu. Mae Rheol Sefydlog 20.5 yn darparu, o dan amgylchiadau 'arferol', i'r Pwyllgor Cyllid gael 8 wythnos i adrodd ar gynigion y gyllideb amlinellol a phum wythnos i bwyllgorau ystyried cynigion y gyllideb fanwl. Er na ellir galw'r flwyddyn hon yn flwyddyn 'arferol', rwyf wedi ymrwymo o hyd i sicrhau bod ein cynigion gwario'n destun y gwaith craffu llawnaf posibl. O ganlyniad, byddai'r amserlen yr wyf wedi'i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hamlinellu'n caniatáu 8 wythnos i graffu ar y gyllideb ddrafft yn, gan gynnwys 5 wythnos eistedd a 3 wythnos pan nad ydym yn eistedd.

Pe bai'r amserlen ddrafft yn newid o ganlyniad i amseriad y cyhoeddiad am yr Adolygiad o Wariant, fy mwriad fyddai cynyddu cyfran yr wythnosau eistedd a ddarperir ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft.

Os bydd Llywodraeth y DU'n cyhoeddi ei chyllideb yn gynharach yn yr Hydref, byddem hefyd yn disgwyl cyflwyno ein cynlluniau a chyhoeddi'r gyllideb yn gynharach os bydd amserlen Llywodraeth y DU'n caniatáu ar gyfer hyn.

Rwyf yn ddiolchgar am ddealltwriaeth y Pwyllgor a gobeithio bod y trefniadau hyn yn dderbyniol o gofio'r amgylchiadau sy'n cael eu gyrru gan ffactorau allanol y tu hwnt i'n rheolaeth ac sydd â lefel ddigyffelyb o ansicrwydd.

Yn gywir,

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd